<u>**YR ESGYNIAD:**</u>

**Emyn**: 493 '*Mi dafla' 'maich oddi ar fy ngwar*.'

**Darlleniadau**: **Luc 24:50-53, Actau 1:1-11.**

**Gweddi**: O Dad nefol, mewn cyfnod pan mae llawer yn gwybod beth yw bod ar wahan o anwyliaid, dyma ni heddiw yn ystyried profiad y disgyblion o orfod ffarwelio ag un oedd mor annwyl yn eu golwg, Iesu Grist. Gwelwn fodd bynnag sut wyt ti'n medru troi'r tristwch yna i fod yn brofiad o lawenydd iddynt. Dyro'r fath gysur i ni. Amen.

**Neges**: Mae Ioan yn ei Efengyl, ar ddechrau pennod 14 yn datgan, "*Peidiwch a gadael i ddim gynhyrfu'ch calon." "Let not your hearts be troubled*." **Pam oeddent wedi'u cynhyrfu**? Cawn ateb ym mhennod 13. "*Fy mhlant, am ychydig amser eto y byddaf gyda chwi; … 'Ni allwch chwi ddod lle'r wyf fi'n mynd,*" 33. Roedd Iesu, eu Meistr, ffrind ac athro yn eu gadael! Mae bod ar wahan o rai annwyl yn brofiad anodd sy'n dwyn tristwch. Gadael teulu i fynd i ryfel, gadael ardal i ddechrau gwaith, gadael aelwyd i fynd i goleg - arwahanrwydd. Ym mhrofiad y disgyblion roedd llawer o gwestiynau yn codi: 1.'I ble'r oedd Iesu yn mynd?' 2. 'Pam ydoedd yn mynd?' 3. 'Beth fuasai'n gwneud pan ydoedd wedi cyrraedd ble'r oedd yn mynd?'

1. <u>**I Ble?**</u> "*Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau*."

   "*In my Father's house are many rooms*," Ioan 14:2. Roedd Iesu yn mynd i dŷ Ei Dad, nôl i'r nefoedd. Medd Iesu, "*Ond yn awr, yr wyf yn mynd at yr hwn a'm hanfonodd i*," Ioan 16:5.

2. <u>**Pam mynd?**</u> Cri yr Iesu ar y groes oedd,

   "*Gorffennwyd*!" Roedd Iesu wedi dod i'r ddaear gyda gwaith arbennig ac roedd bellach wedi gorffen y gwaith yna, y gwaith o sefydlu iachawdwriaeth Duw, y gwaith o adfer y berthynas a dorrwyd gan bechod, rhwng Duw a dyn. Hefyd, roedd cyfnod Ei gywilydd (humiliation) yn dod i ben a'r amser wedi dod iddo gael ei ogoneddu. Roedd yn dychwelyd at Ei Dad.

3. <u>**Beth fuasai'n gwneud yno?**</u> Yn nhŷ Ei Dad buasai'n

   '*paratoi lle'* i'w bobl, ad.2. **Â ydym yn gyffrous am hyn?** Yn dilyn Esgyniad Iesu, clywn y geiriau, '*Wedi iddynt ei addoli ar eu gliniau, dychwelsant yn **llawen** iawn i Jerwsalem*,' Luc 24:52. Roedd eu trallod wedi tro'i lawenydd! **Pam?** Roeddent yn deall i ble'r ydoedd yn mynd, pam ydoedd wedi mynd, a beth fuasai'n gwneud yno. Hefyd, roedd yn mynd i ddod nôl! '*Bydd yr Iesu hwn, sydd wedi ei gymryd … i'r nef yn dod yn yr un modd*,' Act 1.

**THE ASCENSION.**

**Hymn:** 930 '*Thine be the glory*.'

**Prayer:** **Our Father, in a time when so many have been separated from loved ones, today we consider the experience of the disciples having to farewell with one they loved dearly, Jesus. We see however, how you are able to change situations of sadness into ones of great joy. Let us know of such comfort these days.** Amen.

**Message**: John in his gospel in chapter 14 states, '*Let not your hearts be troubled, 1*' **Why were they troubled**? We read in chapter 13, '*Little children, yet a little while I am with you,*' 33. Jesus, their master, teacher and friend was about to leave them! To be separated from loved ones brings much sadness. Examples: Leaving a family during war time; leaving your community for work reasons; leaving a home for college = troubled hearts! The disciples must have raised many questions: 1. 'Where was Jesus going?' 2. 'Why was he going?' 3. 'What would he be doing once he arrived at his destination?'

1.**Where was Jesus going**? "*In my Father's house are many rooms*," John 14:2. Jesus was going to His Father's house, returning to heaven. Jesus declared in John 16:5, "*But now I am going to him who sent me*." Jesus was returning to His Father.

2. **Why was he going**? Jesus' cry upon Calvary' cross was, "*It is finished!*" Jesus had come to earth to undertake a special work. That work had been completed fully; the work of establishing God's salvation, the work of restoring the relationship between God and man, broken by sin – Jesus' redemption. Also, his time of humiliation was complete and it was now time for him to be glorified! He had completed his work and was returning to His Father.

3. **What would he be doing in heaven**? In his Father's house he was '*going to prepare a place*' for all of God's children! We know his preparations will be perfect. **Are we excited by this**? Following Jesus' ascension we read, '*They worshipped him and returned to Jerusalem with great joy*,' Luke 24:52. Jesus would turn their sadness to great joy. Why? They would know where Jesus was going and why he was going and that He would be preparing a place in heaven for them. What joy! Also, as told in Acts 1, '*This Jesus, … will come in the same way as you saw him go into heaven*,' 11. One day, Jesus will return in glory. Amen.